Children in Wales
Plant yng Nghymru

Rhaglen Hyfforddi

Hydref 2010 - Mawrth 2011



Plant yng Nghymru
Rhaglan Hyfforddiant

Croeso i Rhaglen Hyfforddi newydd Plant yng Nghymru. Mae'n holl gyrsiau yn rhai amlddisgyblaethol a'u nod yw hyrwyddo ymagwedd integredig ar gyfer pob un o'r rheiny sy'n gweithio mewn y sectorau statudol, gwirfoddol ac annibynnol. Rydym yn defnyddio adnoddau ein tîm staff arbenigol ein hunain, a rhwydwaith cenedlaethol o unigolion a sefydliadau arbenigol, i gyflwyno digwyddiadau hyfforddi o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o leoliadau ledled Cymru. Mae'n holl hyfforddiant yn cael ei anelu at bobl sy'n gweithio yng Nghymru.

Mae'n adlewyrchu'r cyd-destun Cymreig a dargyfeiredd cynyddol oddi wrth bolisi yn ymwneud â phlant a theuluoedd yn Lloegr. Gallwn hefyd ddarparu hyfforddiant 'mewnol.' (Gweler tudalen 3 ar gyfer mwy o wybodaeth.)

Archebu Lle

Cofrestrir ar sail y cyntaf i'r felin ac mae lleoedd yn gyfyngedig, felly fe'ch cynghorir i drefnu'ch lle yn gynnar. Pan fydd y cwrs yn llawn cedwir rhestr wrth gefn a fyddwn ni'n cysylltu a chi os bydd unrhyw un yn canslo. Gellir bwcio trwy ddefnyddio'r ffurflen gais amgaeedig neu ar-lein trwy wefan Plant yng Nghymru, www.plantyngnghymru.org.uk. A fyddech cystal â llenwi un ffurflen ar gyfer pob cynrychiolydd, a phan fyddwch wedi'i llenwi, gwnewch gopi ar gyfer eich cofnodion eich hun. Ni dderbynnir archebion dros y ffôn. Pan dderbynnir eich cais, bydd eich lle yn cael ei gadarnhau trwy e-bost a bydd manylion y cwrs yn cael eu hanfon atoch cyn y digwyddiad. I osgoi cael eich siomi ar y diwrnod, a wnewch chi sicrhau eich bod wedi cael cadarnhad o'ch lle cyn mynd i'r lleoliad.

Canslo

Dim ond yn ysgrifenedig y gellir canslo. Os byddwch yn canslo tair wythnos cyn dyddiad y digwyddiad, cewch ad-daliad llawn, ac eithrio £10 o ffi gweinyddu. Ni ellir rhoi ad-daliad ar ôl y dyddiad hwn, ond gellir gwneud cyfnewidiadau. Mae Plant yng Nghymru yn cadw'r hawl i addasu rhaglenni digwyddiad ar unrhyw adeg.

Ymunwch â Plant yng Nghymru

Pam na ymunwch â Plant yng Nghymru a manteisio ar gyfraddau aelodaeth ar gyfer gyd o'n cyrsiau hyfforddiant? Cysylltwch â ni ar 029 2034 2434 neu trowch at www.plantyngnghymru.org.uk/membership i gael gwybod mwy. Fel aelod gallwch gael gostyngiadau ar ddigwyddiadau, hefyd E-friffiau Polisi rheolaidd, gohebiaeth aelodaeth

Cynnwys

Hyfforddiant Mewnol 3

Ffocws ar Blant a Phobl Ifanc

Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches 5
Deall Blynyddoedd yr Arddegau 5
Er Gwaethaf y Disgwyl – Meithrin Gwydnwch mewn Pobl Ifanc 6
Chwarae Therapiwtig i Blant mewn Angen 6
Cyflwyniad i Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed 7
Gweithio'n Gadarnhaol gyda Phlant Awtistig yn y Blynyddoedd Cynnar 7
Cyflwyniad i Hawliau a Chyfranogiad Plant 8
"Gwelwch Fi, Clywch Fi" – Hyrwyddo Hawliau Plant Anabl 8

Cefnogi Teuluoedd

Ymgysylltu â Thadau 10
Cyflwyniad i Weithio gyda Thadau 10
Gostwng Damweiniau Cartref yn y Blynyddoedd Cynnar 11
Hyfforddi'r Hyforddwr: Hyfforddiant ar Ddiogelwch yn y Cartref 11
Ymagweddau Cadarnhaol at Ymddygiadau Cadarnhaol 12
Beth sy'n Gweithio? Sgiliau Therapiwtig mewn Gwaith Teuluol 12

Diogelu Plant a Phobl Ifanc

Cam-drin Domestig ac Amddiffyn Plant – Ymagwedd Amlasiantaethol 14
Diogelu Plant – Gweithio gyda Rhieni Osgoilyd a Pheryglus 14
Diogelu plant – Cwrs Sylfaenol ar Esgeuluso Plant 15
Esgeuluso Plant – Cwrs Uwch i Ymarferwyr Profiadol 15
Hunan-Niwed 16
Ymlyniad a'i Rôl ym Mywydau Plant 16

Cefnogi Ymarferwyr

Dulliau Amlsynhwyraidd o Ddysgu 18
Gweithio Creadigol gyda Phlant a Theuluoedd 18
Mynd i'r Afael â Pholisi Plant a Theuluoedd yng Nghymru 19
Cyflwyniad i Ddeilliannau Meddal a Chynnydd a Wnaed 19
Defnyddio Fframwaith Hawliau Dynol i Wella Hawliau Plant 20
Pam Cyflenwi Gwasanaethau yn Gymraeg i Blant a Phobl Ifanc? 20

Calendr Hyfforddi 22

Hyfforddiant Mewnol

Os oes gennych ddiddordeb mewn prynu un o'r digwyddiadau a hysbysebir ar gyfer eich sefydliad neu gomisiynu diwrnod o hyfforddiant teilwredig, medrwn drefnu'r hyfforddiant i'ch gofynion penodol, llunio rhaglen ar gyfer y dydd, sicrhau hyfforddydd arbenigol a'r holl ddeunyddiau perthnasol. Os ydych chi'n darparu'r lleoliad, gall hyn fod yn ffordd effeithiol o ran cost o sicrhau y caiff anghenion hyfforddiant eich holl grŵp staff eu diwallu ar adeg a lle sy'n addas i'ch sefydliad. Yn ogystal â'r cyrsiau a hysbysebir yn y rhaglen hyfforddiant, gall staff Plant yng Nghymru gynnig amrywiaeth o weithdai hanner diwrnod codi ymwybyddiaeth ar y pynciau dilynol:

Sut i gefnogi plant anabl mewn gosodiadau prif ffrwd

Bydd y gweithdy hwn yn cynnwys edrych ar sut y medrir gwneud addasiadau rhesymol o fewn gosodiadau gan roi syniadau o sut y medrir cefnogi'r grŵp yma o blant i gael mynediad i'ch gwasanaethau a'u cynnwys yn y gweithgareddau a gynigiwch. Yn ogystal â sicrhau fod y lleoliad yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn, bydd y gweithdy hefyd yn edrych ar wneud eich holl weithgareddau'n fwy cynhwysol a hefyd gynorthwyo staff i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at bobl anabl. Bydd yn cynnwys cyflwyniad ar Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 a 2005 a deddfwriaeth arall berthnasol.

Gall Plant yng Nghymru hefyd gynnig cwrs cyflwyniadol cyffredinol ar arfer da ar gyfer gweithio gyda phlant anabl wedi ei deilwra ar gyfer anghenion eich gosodiad.

Hyfforddiant cyfranogiad penodol i'r sector

Gall Plant yng Nghymru ddarparu hyfforddiant pwrpasol ar gyfranogiad a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer sefydliadau sydd eisiau sicrhau y caiff defnyddwyr gwasanaeth ifanc eu cynnwys wrth gynllunio a dylunio eu gwasanaethau. Bydd y gweithdy hwn yn edrych ar y rhwystrau a'r cyfleoedd penodol dros alluogi plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn eich gosodiad. Bydd sesiynau yn seiliedig ar anghenion pob grŵp ac yn seiliedig ar bolisi cyfranogiad yn eu maes gwaith.

Dulliau cyfranogol o weithio gyda phobl ifanc

Gall Plant yng Nghymru ddarparu sesiynau hyfforddiant ar ddulliau cyfranogol gyda phobl ifanc. Gall sesiynau un ai fod yn gyffredinol neu'n hyfforddiant penodol a ddatblygwyd yn seiliedig ar anghenion neilltuol y grŵp.

Cofnodi a Chadw Cofnodion

Bydd y gweithdy hwn yn edrych ar y fframwaith cyfreithiol ar gyfer cofnodi gwybodaeth ac yn ystyried pwysigrwydd cadw cofnodion effeithiol mewn unrhyw sefydliad sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Bydd yn ymchwilio pa systemau sydd gan eich sefydliad ar gyfer cofnodi gwybodaeth, edrych ar faterion o arfer da a chysondeb ar draws y grŵp staff.

Sut i ymrwymo tadau

Mae gweithio gyda thadau yn awr yn dod yn gynyddol brif ffrwd - ar lefel polisi ac ar lefel gwasanaeth. Bydd y gweithdy yn ystyried pwysigrwydd ymrwymo tadau i sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer plant a sut y gall hyn gael goblygiadau pellgyrhaeddol ar gyfer yr holl deulu. Bydd y gweithdy'n edrych ar y rhwystrau lluosog sy'n atal dynion rhag cymryd rhan mewn gwasanaethau. Bydd cyfranogwyr yn sicrhau mwy o ddealltwriaeth o sut a pham bod angen iddynt gynnwys dynion yn llawnach wrth ddylunio gwasanaeth sy'n ymrwymo gyda theuluoedd.

Amddiffyn Plant

Cynllunnir gweithdai i drafod gofynion penodol diogelu plant a phobl ifanc yn eich gosodiad. Bydd y gweithdy yn codi ymwybyddiaeth o'r ffyrdd y gall plant gael eu cam-drin a'r arwyddion i fod yn ymwybodol ohonynt. Bydd yn ystyried y gofynion cyfreithiol a moesol i gadw plant yn ddiogel, gan gyfeirio at eich gosodiad a rolau gweithwyr proffesiynol eraill sy'n cyfrannu at hyn.

Monitro Polisi a Deddfwriaeth

Fe all Plant yng Nghymru ddarparu hyfforddiant ar monitro polisi a deddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Fe ellir addasu'r hyfforddiant ar gyfer y meysydd polisi neilltuol sy'n effeithio ar sefydliad neu fudiad. Fe fydd yn cwmpasu datblygiad polisi a'r prosesau deddfwriaethol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a Senedd y Deyrnas Unedig, ac fe fydd yn edrych ar ba feysydd sydd wedi'u datganoli a pha rai sy'n annatganoledig. Fe ellir hefyd darparu trosolwg ar bolisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn yr Undeb Ewropeaidd.

Am fwy o wybodaeth am ein hyfforddiant mewnol neu i drafod eich anghenion, a fyddech cystal â chysylltu â: Claire Sharp, Swyddog Hyfforddi, Plant yng Nghymru, 25, Plas Winsor, Caerdydd CF10 3BZ, Ffôn: 029 20342434, E-bost: claire.sharp@childreninwales.org.uk

Ffocws ar Blant a Phobl Ifanc

Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches

Cwrs undydd a hwylusir gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru

Nod y cwrs hwn yw datblygu dealltwriaeth y bobl fydd yn cymryd rhan o'r polisi, arferion a fframweithiau cyfreithiol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches. Mae'n gwrs rhagarweiniol sy'n edrych ar amrywiaeth fawr o faterion fel y maent yn effeithio ar blant sy'n ceisio lloches, ac yn defnyddio dull datrys problemau i sicrhau eu bod yn dysgu gymaint ag sy'n bosibl. Er y bydd yn canolbwyntio yn bennaf ar anghenion plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, bydd hefyd yn canolbwyntio ar faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc mewn teuluoedd sy'n ceisio lloches. Bydd pawb sy'n cymryd rhan yn y cwrs yn cael set gynhwysfawr o ddeunyddiau hyfforddi.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Trosolwg ar y fframweithiau cyfreithiol perthnasol
- Datblygu dealltwriaeth y bobl fydd yn cymryd rhan o ddiwylliant a datblygiad plant fel y maent yn effeithio ar y grŵp hwn o blant a phobl ifanc
- Edrych ar yr 'arferion gorau' cyfredol a'r cynigion ar gyfer newidiadau posibl i'r gyfraith, polisi ac arferion
- Datblygu dealltwriaeth y bobl fydd yn cymryd rhan o'r systemau Lloches ehangach yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig

30 Tachwedd 2010, Caerdydd
9 Chwefror 2011, Wrecsam

NEWYDD

COST:
Aelodau £115
Rhai nad ydynt yn aelodau £135

Deall Blynyddoedd yr Arddegau

Cwrs undydd a hwylusir gan Plant yng Nghymru

Gall blynyddoedd yr arddegau greu'r heriau mwyaf i rieni ac aelodau'r teulu. Mae deall yr her y mae pobl ifanc eu hunain yn ei hwynebu yn rhoi i rieni a gweithwyr proffesiynol fel ei gilydd yr offer y mae eu hangen arnynt i ganiatáu i bobl ifanc yn eu harddegau ddatblygu, ac ar yr un pryd dal i'w cadw'n ddiogel rhag eithafion gwaethaf ymddygiad pobl ifanc yn eu harddegau. Mae'r cwrs i ymarferwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc yn eu harddegau, a'r rheiny sy'n ymwneud â gwasanaethau cymorth i deuluoedd.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Edrych ar ddatblygiad pobl ifanc yn eu harddegau
- Pam mae cymdeithas fodern yn gwneud hyn yn anodd, a beth y gellir ei wneud i gynorthwyo pobl ifanc yn eu harddegau
- Rôl mamau a thadau fel ei gilydd
- Ffyrdd i wella cyfathrebu gyda phobl ifanc yn eu harddegau
- Strategaethau i reoli ymddygiad pobl ifanc yn eu harddegau

18 Ionawr 2011, Castell-nedd

NEWYDD

COST:
Aelodau £80
Rhai nad ydynt yn aelodau £100

Er Gwaethaf y Disgwyl – Meithrin Gwydnwch mewn Pobl Ifanc

Cwrs undydd a hwylusir gan Young People in Focus

Pam mae rhai pobl ifanc yn ymdopi ag anawsterau'n haws nag eraill? Pa ffactorau sydd wir yn gwneud gwahaniaeth i'r ffordd yr ydym yn ymdrin ag adfyd? Beth all ymarferwyr ei wneud i wneud gwahaniaeth? Mae'r cwrs undydd hwn yn edrych ar sut y gallwch ddatblygu ymagwedd sy'n adeiladu ar gryfderau i helpu pobl ifanc i ymdrin ag adfyd, ymdopi â newid, goroesi siom a rheoli argyfyngau. Bydd yn defnyddio arferion, ymchwil a damcaniaeth.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Gwydnwch, risg ac ymdopi – beth ydym ni'n ei olygu
- Priodweddau gwydnwch allweddol i unigolion a theuluoedd
- Goblygiadau gwahanol ddulliau ymdopi dynion a merched ifanc
- Ffactorau amddiffynnol i unigolion, teuluoedd a chymunedau
- Arwyddocâd deallusrwydd emosiynol, datrys problemau ac optimistiaeth
- Gwrando ar bobl ifanc a theuluoedd a meithrin perthnasoedd gofal
- Cefnogi cysylltioldeb

15 Mawrth 2011, Castell-nedd

COST:
Aelodau £120
Rhai nad ydynt yn aelodau £145

Chwarae Therapiwtig i Blant mewn Angen

Cwrs undydd a hwylusir gan Windfall Training

Canolbwynt y cwrs hwn yw helpu'r rheiny sy'n gweithio gyda phlant sy'n wynebu adfyd yn eu bywydau, neu heriau anabledd, i feithrin gwydnwch a hunanwerth trwy chwarae a pherthnasoedd chwaraegar.

Bydd y sesiwn yn cynnig fforwm diogel seiliedig ar arfer i ystyried ymagweddau at chwarae, rhai cyfeiriol ac anghyfeiriol, i ymgysylltu â phlant mewn angen ac i edrych ar rôl yr oedolyn wrth hybu cynnydd ac iachâd plant.

Bydd y cwrs yn:

- Helpu'r bobl fydd yn cymryd rhan i ystyried yr amrywiaeth o heriau y mae plant a theuluoedd yn eu hwynebu
- Galluogi'r bobl fydd yn cymryd rhan i ddefnyddio sgiliau a thechnegau chwarae therapiwtig yn ddiogel i roi cefnogaeth i blant sy'n wynebu adfyd
- Helpu'r bobl fydd yn cymryd rhan i fagu ymwybyddiaeth o'u proses wrth weithio gyda phlant mewn angen, ac edrych ar yr heriau a geir wrth ymarfer

10 Rhagfyr 2010, Castell-nedd
22 Mawrth 2011, Y Rhyl

NEWYDD

COST:
Aelodau £120
Rhai nad ydynt yn aelodau £145

Cyflwyniad i Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed

Cwrs undydd a hwylusir gan YoungMinds

Mae'r cwrs hwn yn adeiladu ar egwyddorion craidd y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yng Nghymru, ac yn datblygu'r ddealltwriaeth o iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae hefyd yn cynyddu hyder, cymhwysedd a gallu yn y maes pwysig hwn o Wasanaethau Plant. Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at y rheiny sy'n gweithio gyda babanod, plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr sydd eisiau gweithio gydag eraill i sicrhau canlyniadau gwell i blant.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Edrych ar sut y gall ymarferwyr, ym mha leoliad bynnag, hybu iechyd meddwl yn eu rôl
- Sut i adnabod plant a phobl ifanc sydd â phroblemau iechyd meddwl neu sydd mewn perygl o gael problemau iechyd meddwl
- Nodi ymyrraeth gynnar briodol i gefnogi plant a phobl ifanc a/neu eu teuluoedd sydd â phroblemau llai difrifol a chymhleth

10 Tachwedd 2010, Caerdydd

COST:
Aelodau £135
Rhai nad ydynt yn aelodau £160

Gweithio'n Gadarnhaol gyda Phlant Awtistig yn y Blynyddoedd Cynnar

Cwrs undydd a hwylusir gan Windfall Training

Mae'r cwrs hwn yn cynnig dealltwriaeth ehangach i'r bobl sy'n cymryd rhan o sut y gall awtistiaeth effeithio ar ddatblygiad, chwarae a rhyngweithio cymdeithasol cynnar. Gall y ddealltwriaeth ddyfnach hon fod yn sail i berthnasoedd cadarnhaol ac sy'n datblygu a gwella gyda phlant awtistig. Edrychir ar strategaethau ar gyfer hyrwyddo datblygiad ymgysylltu, chwarae ac iaith, ynghyd ag ymatebion cadarnhaol i ymddygiadau a geir gydag awtistiaeth ac a all herio gweithwyr proffesiynol a theuluoedd. Mae'r cwrs hwn i bawb sy'n gweithio gyda phlant awtistig a'u teuluoedd ac sy'n dymuno dyfnhau eu dealltwriaeth ac ehangu eu sgiliau gyda'r garfan hon o blant.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Safbwyntiau cyfredol ar natur a nodweddion awtistiaeth
- Ymagweddau seiliedig ar dystiolaeth ym meysydd chwarae, datblygiad cymdeithasol, lles teuluoedd ac ymddygiad
- Strategaethau i gefnogi cyfathrebu a sylw a rennir

8 Mawrth 2011, Blaenau Gwent

COST:
Aelodau £115
Rhai nad ydynt yn aelodau £135

Cyflwyniad i Hawliau a Chyfranogiad Plant

Cwrs undydd a hwylusir gan Plant yng Nghymru

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i ymarferwyr a rheolwyr sydd efallai'n newydd i wasanaethau gofal cymdeithasol, iechyd, addysg a diogelu'r cyhoedd, neu i'r rheiny sy'n dymuno diweddaru eu gwybodaeth am yr agenda seiliedig ar 'Hawliau' – sy'n datblygu a newid o hyd trwy ddeddfwriaeth a pholisi yng Nghymru.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Trosolwg ar ddatblygiad hawliau plant o bersbectif hanesyddol hyd heddiw
- Dealltwriaeth o rôl 'hawliau plant' a sut y gall gweithwyr proffesiynol ei ddefnyddio a'i gynnwys yn eu hymarfer beunyddiol
- Edrych ar y ffordd y mae gwerthoedd ac agweddau personol yn effeithio ar ein hymagwedd at hawliau plant
- Amrywiaeth o dechnegau cyfranogol y gellir eu mabwysiadu wrth ymgysylltu â phlant a phobl ifanc
- Dealltwriaeth o'r fframweithiau deddfwriaethol a pholisi, gan gynnwys y Safonau Cyfranogi sy'n bodoli yng Nghymru
- Trosolwg ar 'Gwneud Pethau'n Iawn' – Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn; Cynllun Gweithredu i Gymru

17 Ionawr 2011, Llandudno

COST:
Aelodau £98
Rhai nad ydynt yn aelodau £120

"Gwelwch Fi, Clywch Fi" – Hyrwyddo Hawliau Plant Anabl

Cwrs undydd a hwylusir gan Plant yng Nghymru

Diben Confensiwn newydd y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau yw "Hyrwyddo, diogelu a sicrhau meddiant llawn a chyfartal ar yr holl hawliau dynol a phob rhyddid sylfaenol gan bob unigolyn ag anableddau, a hyrwyddo parch at eu hurddas cynhenid." Mae hyn yn dynodi newid mawr a sylfaenol mewn agweddau ac ymagweddau at bobl ag anableddau ledled y byd. Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at bobl sy'n gweithio gyda phlant anabl yn unig, a'r rheiny sy'n dymuno hyrwyddo gwasanaethau cynhwysol. Bydd y bobl fydd yn cymryd rhan yn edrych ar sut y gellir defnyddio'r Confensiwn hwn, a dogfennau eraill, gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, i hyrwyddo hawliau plant anabl.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Deall hawliau plant anabl
- Darpariaethau allweddol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau
- Y berthynas rhwng Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Edrych ar y ffordd y mae gwerthoedd ac agweddau personol yn effeithio ar ein hymagwedd at hawliau plant
- Cyfle i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau sydd newydd eu caffael i'ch arferion gwaith

14 Hydref 2010, Caerdydd

COST:
Aelodau £80
Rhai nad ydynt yn aelodau £100

Cefnogi Teuluoedd

Ymgysylltu â thadau

Gweithdy hanner diwrnod i godi ymwybyddiaeth, a hwylusir gan Fatherskills

Mae gweithio gyda thadau bellach yn dod yn rhywbeth mwyfwy prif ffrwd – a hynny ar lefel polisi a gwasanaethau. Bydd y gweithdy hwn yn esbonio pam y mae tadau cyfrannog yn bwysig o ran canlyniadau gwell i blant, a sut y gall hyn fod â goblygiadau pellgyrhaeddol i'r teulu cyfan.

Bydd y gweithdy yn:

- Rhoi dealltwriaeth i'r bobl fydd yn cymryd rhan o'r rhwystrau sy'n atal dynion rhag ymgysylltu â gwasanaethau
- Ystyried pam y mae angen i ni gynnwys dynion yn llawnach wrth gynllunio gwasanaethau i deuluoedd

22 Hydref 2010, Wrecsam

COST:
Aelodau £55
Rhai nad ydynt yn aelodau £80

Cyflwyniad i Weithio gyda Thadau

Cwrs deuddydd a hwylusir gan Fatherskills

Mae'r cwrs wedi'i anelu at bob gweithiwr proffesiynol sy'n ceisio ymgysylltu â theuluoedd mewn ffordd ystyrlon. Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar yr egwyddorion damcaniaethol ar gyfer cynyddu cyfranogiad gan dadau, ac yn rhoi'r hyder i'r ymarferwyr i fynd i'r afael â'r maes gwaith heriol hwn.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Egwyddorion ac arferion gweithio gyda thadau
- Awgrymiadau ymarferol ar gyfer cyrraedd tadau
- Sut i gynorthwyo tadau i chwarae a rhyngweithio â'u plant
- Y sgiliau sy'n angenrheidiol i hwyluso perthynas ystyrlon rhwng tad a'i blentyn
- Edrych ar sut mae rolau'r rhywiau wedi newid yn y teulu
- Darparu'r wybodaeth sylfaenol ar gyfer yr hyfforddiant gwaith grŵp "Cefnogi grwpiau tadau yn y blynyddoedd cynnar"

17 &18 Chwefror 2011, Casnewydd

COST:
Aelodau £195
Rhai nad ydynt yn aelodau £235

Gostwng Damweiniau Cartref yn y Blynyddoedd Cynnar

Cwrs undydd a hwylusir gan Plant yng Nghymru

Mae'r cwrs cyfranogol hwn yn defnyddio ymyriadau seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth i helpu ymarferwyr i ddeall a mynd i'r afael â damweiniau ataliadwy yn y cartref, gan ganolbwyntio ar y damweiniau mwyaf cyffredin, mwyaf difrifol neu sy'n anablu fwyaf. Mae'r cwrs wedi'i anelu at Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc, Bydwragedd ac Ymwelwyr Iechyd, Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, Dechrau'n Deg a Chychwyn Cadarn, Gwasanaethau Cymdeithasol, Darparwyr Cynlluniau Cyfarpar Diogelwch Cartref a Rheolwyr Iechyd a Lles.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Nodi pwy sydd â'r risg mwyaf a pham mae risg yn amrywio
- Ymyrraeth effeithiol – cwympiadau, tân, gwenwyno, llosgiadau a sgaldiadau
- Ymyriadau ar waith

2 Tachwedd 2010, ger Aberhonddu
16 Tachwedd 2010, ger Caernarfon

COST:
Aelodau £98
Rhai nad ydynt yn aelodau £120

Neilltuwch le ar y ddau gwrs ar y dudalen hon, a byddwch ar eich ennill o 15% o ddisgownt.

Hyfforddi'r Hyforddwr: Hyfforddiant ar Ddiogelwch yn y Cartref

Cwrs undydd a hwylusir gan Plant yng Nghymru

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at ymarferwyr sy'n gweithio gyda rhieni, mewn grŵp cymunedol, i leihau nifer y damweiniau yn y cartref i blant ifanc. Bydd y cwrs hwn yn galluogi ymarferwyr i wneud eu sesiynau cymunedol yn fwy effeithiol trwy gael yr hyder, y wybodaeth, y sgiliau a'r offer i gynllunio, datblygu a chyflenwi sesiynau grŵp ar ddiogelwch yn y cartref. Mae'r cwrs rhyngweithiol hwn yn rhoi i'r ymarferwyr y cyfle i ddeall sut mae pobl yn dysgu, sut i lunio cynllun sesiwn effeithiol a sut i werthuso canlyniad y sesiwn.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Nodi egwyddorion ac agweddau ymarferol y ffyrdd mae pobl yn dysgu
- Deall a lleihau'r rhwystrau i ddysgu
- Cynllunio, datblygu a chyflenwi sesiynau ar ddiogelwch yn y cartref mewn grŵp
- Gwerthuso sesiynau grŵp

Fe fydd y cwrs hwn yn canolbwyntio ar ddulliau dysgu a'r ffordd effeithiol o gyflwyno negeseuon allweddol i rieni o fewn lleoliad cymunedol. 'Rydym felly yn argymell bod cyfranogwyr yn mynychu'n cwrs undydd, "Lleihau Damweiniau yn y Cartref yn y Blynyddoedd Cynnar – Ymyriadau Effeithiol", er mwyn sicrhau'r wybodaeth gefndirol am yr achosion, y peryglon a'r hyn sy'n gweithio i atal damweiniau yn y cartref.

17 Tachwedd 2010, ger Caernarfon

NEWYDD

COST:
Aelodau £98
Rhai nad ydynt yn aelodau £120

Ymagweddau Cadarnhaol at Ymddygiadau Cadarnhaol

Cwrs undydd a hwylusir gan Windfall Training

Nod yr hyfforddiant hwn yw helpu'r bobl fydd yn cymryd rhan i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o natur swyddogaethol ymddygiadau yr ydym yn eu hystyried yn heriol, a chanfod ffyrdd cadarnhaol a blaengar o ymateb. Bydd y cwrs yn cynnig fforwm diogel seiliedig ar ymarfer i ystyried ffyrdd o weithio gyda phlant y mae eu hymddygiad yn creu rhwystr mewn perthnasoedd cymdeithasol, perthnasoedd dysgu a pherthnasoedd chwarae.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Natur swyddogaethol ymddygiad a gweithio gyda Fframwaith Asesu ABC
- Amrywiaeth o strategaethau seiliedig ar dystiolaeth i ymateb i ymddygiadau anodd ac ymosodol
- Canllawiau ar ymyrraeth mewn argyfwng
- Sut i ymdopi â'n hymateb a'n straen personol ein hunain

23 Mawrth 2011, Y Rhyl

COST:
Aelodau £115
Rhai nad ydynt yn aelodau £135

Beth sy'n Gweithio? Sgiliau Therapiwtig mewn Gwaith Teuluol

Cwrs deuddydd a hwylusir gan Jill Duguay a Pam Pritchard

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i bobl sy'n gweithio gyda phlant 0–8 oed a'u teuluoedd sy'n cael anawsterau difrifol. Mae cymhlethdod a straen magu plant a diwallu eu hanghenion emosiynol yn golygu bod ar rieni angen cronfa enfawr o dosturi, cariad a gwybodaeth y gallant ei defnyddio. Sut mae rhieni'n dysgu bod yn effeithiol? O ymgysylltu/asesu, i helpu rhieni i gynnal newid, bydd y cwrs hwn yn cynnig y cyfle i drafod arferion a rhannu a phrofi amrywiaeth o sgiliau therapiwtig ar gyfer gweithio gyda rhieni.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Ymgysylltu â'r 'rhiant anodd ei gyrraedd'
- Sut i ddatblygu hyder rhieni i ddatrys problemau
- Anawsterau ymlyniad – sut i adnabod a gwella perthnasoedd gwael
- Grym defnyddio fideo i ddatrys problemau
- Cynllunio ar gyfer ymyriadau effeithiol
- Helpu rhieni i adnabod a dysgu pa sefyllfaoedd sy'n debygol o achosi problemau
- Gweithio gyda phrofiadau rhieni yn y gorffennol

9 a 10 Chwefror 2011, Caerffili

NEWYDD

COST:
Aelodau £195
Rhai nad ydynt yn aelodau £235

Diogelu Plant a Phobl Ifanc

Cam-drin Domestig ac Amddiffyn Plant – Ymagwedd Amlasiantaethol

Cwrs undydd a gynhelir ar y cyd gan Gymorth i Ferched Cymru a Plant yng Nghymru

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at ymarferwyr sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg a thai â chymorth. Bydd yn galluogi ymarferwyr i ddeall mwy am ddangosyddion risg, ac i rannu arferion da wrth weithio'n gydweithredol gydag asiantaethau eraill ac aelodau o deuluoedd.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Effaith cam-drin domestig ar blant a phobl ifanc
- Dealltwriaeth o sut y gall plant gael eu defnyddio gan y bobl sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig
- Cydnabod yr effaith sylweddol y mae cam-drin domestig yn dal i'w chael ar ôl i berthynas â rhywun sy'n ei gyflawni ddod i ben
- Heriau amddiffyn plant mewn teuluoedd lle mae yna gam-drin domestig
- Creu cynlluniau diogelwch
- Gweithio mewn partneriaeth gyda phlant a theuluoedd i ganfod a myfyrio ynghylch ffactorau risg
- Deall rolau asiantaethau eraill

14 Ionawr 2011, Abertawe
31 Mawrth 2011, Abergele

COST:
Aelodau £98
Rhai nad ydynt yn aelodau £120

Diogelu Plant – Gweithio gyda Rhieni Osgoilyd a Pheryglus

Cwrs undydd a hwylusir gan Barry Davies

Mae ymchwiliadau i farwolaethau Victoria Climbie, Peter Connolly ac eraill wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch y ffordd mae gweithwyr proffesiynol yn ymateb weithiau i rieni/gofalwyr sy'n osgoilyd ac o bosibl yn beryglus. Mae'r cwrs undydd hwn yn dwyn ynghyd y rheiny sy'n ymwneud â diogelu plant i edrych ar ffyrdd o weithio'n fwy diogel er lles plant a gweithwyr proffesiynol.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Rhannu profiadau o weithio gyda rhieni osgoilyd a pheryglus yng nghyd-destun diogelu plant
- Codi ymwybyddiaeth o'r heriau y mae staff yn eu hwynebu wrth ddiogelu plant rhag gweithredoedd ac anweithredoedd eu rheini
- Trafod cysyniadau megis 'egwyddor ansicrwydd' ac 'esgus cydymffurfio'
- Y ddyletswydd gofal sydd ar weithwyr proffesiynol i rieni a phlant
- Edrych ar ymatebion i wahanol senarios
- Edrych ar strategaethau ataliol ac amddiffynnol er mwyn ymdrin â rhieni osgoilyd a pheryglus
- Gosod y strategaethau hyn yng nghyd-destun iechyd a diogelwch yn y gweithle
- Edrych ar risg a gwydnwch mewn teuluoedd fel ffordd o lunio ymyriadau

3 Rhagfyr 2010, Merthyr Tudful

COST:
Aelodau £115
Rhai nad ydynt yn aelodau £135

Diogelu plant – Cwrs Sylfaenol ar Esgeuluso Plant

Cwrs undydd a hwylusir gan Barry Davies

Mae oddeutu hanner y plant ar gofrestri amddiffyn plant yng Nghymru a Lloegr wedi'u gosod yng nghategori Esgeulustod. Ond mae pwnc esgeuluso plant wedi cael ei ddisgrifio gan rai ymgyrchwyr fel un 'sy'n cael ei esgeuluso' o'i gymharu â'r sylw a roddir i fathau eraill o gamdriniaeth. Bydd y cwrs yn rhoi trosolwg ar esgeulustod yng nghyd-destun diogelu plant a phobl ifanc, ac yn edrych ar gysyniadau megis 'rheol optimistiaeth', 'cariad naturiol' a 'pherthynolaeth ddiwylliannol'.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Trafodaeth ynghylch yr hyn a olygir gan y gair 'esgeuluso' yng nghyd-destun diogelu plant a phobl ifanc
- Edrych ar achosion posibl esgeulustod
- Effaith esgeulustod ar ddatblygiad plentyn
- Rhannu profiadau o weithio gyda theuluoedd lle gallai esgeulustod fod yn amlwg
- Edrych ar drothwyau ymyriadau gan asiantaethau statudol mewn teuluoedd lle gallai fod esgeulustod
- Trafod ffyrdd gwell o weithio'n amlasiantaethol mewn achosion lle bernir bod esgeulustod yn cael effaith niweidiol ar blentyn

17 Tachwedd 2010, Caerdydd
1 Mawrth 2011, Y Rhyl

NEWYDD

COST:
Aelodau £115
Rhai nad ydynt yn aelodau £135

Esgeuluso Plant – Cwrs Uwch i Ymarferwyr Profiadol

Cwrs undydd a hwylusir gan Barry Davies

Bydd y cwrs hwn yn cynnig cyfle i'r bobl fydd yn cymryd rhan i ymchwilio'n fanwl i achosion, effeithiau ac ymyriadau mewn achosion o esgeulustod. Bydd y bobl fydd yn cymryd rhan yn edrych ar drothwyau ymyriadau a ddefnyddir gan asiantaethau statudol i deuluoedd lle gallai fod esgeulustod, a bydd y cwrs yn cyflwyno offer megis y Proffil Gofal Graddedig a ddefnyddir i helpu i fesur cynnydd neu waethygiad. Bydd senario lle mae achos hirdymor o esgeulustod yn cael ei ddefnyddio i dynnu sylw at yr anawsterau wrth benderfynu a ddylid gweithio gyda theulu ar sail plant mewn angen ynteu ar sail amddiffyn plant.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Edrych ar agweddau a throthwyau mewn perthynas ag esgeuluso plant
- Edrych ar ymchwil gyfoes ac ymagweddau damcaniaethol at esgeulustod
- Nodi amrywiaeth o offer i gynorthwyo ag asesu plant a theuluoedd
- Rhannu profiadau o ymchwiliadau Adran 47, cynadleddau achosion amddiffyn plant cychwynnol ac achosion gofal
- Datblygu strategaethau ar gyfer gweithio mewn cyd-destun amlasiantaethol er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i blant a theuluoedd
- Tynnu sylw at yr effaith mae gweithio gyda theuluoedd esgeulus yn ei chael ar ymarferwyr a datblygu strategaethau ar gyfer cefnogaeth bersonol a phroffesiynol

2 Chwefror 2011, Merthyr Tudful

NEWYDD

COST:
Aelodau £115
Rhai nad ydynt yn aelodau £135

Hunan-Niwed

Cwrs deuddydd a hwylusir gan Young Minds

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio i weithwyr proffesiynol sy'n dymuno datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn perthynas â hunan-niwed gan blant a phobl ifanc, ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau dysgu i edrych ar:

- Ddiffiniadau hunan-niwed
- Teimladau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad hunan-niweidiol
- Ffeithiau a ffigurau am fynychder a nifer yr achosion o hunan-niwed
- Gwybod pryd i gael cymorth
- Sut i reoli ymddygiad hunan-niweidiol yn gadarnhaol
- Datblygu strategaethau i reoli realiti gweithio gyda phobl sy'n hunan-niweidio
- Gweithio tuag at fecanweithiau ymdopi mwy diogel

2 a 3 Mawrth 2011, Merthyr Tudful

COST:
Aelodau £225
Rhai nad ydynt yn aelodau £250

Ymlyniad a'i Rôl ym Mywydau Plant

Cwrs undydd a hwylusir gan Windfall Training

Mae'r cwrs hwn wedi'i anelu at bawb sydd â diddordeb yn natblygiad emosiynol babanod a phlant, ac yn enwedig y rheiny sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd sydd mewn amgylchiadau ingol, neu sy'n eu cynorthwyo. Daethpwyd i ddeall fod anhwylder ymlyniad yn gyfrannwr o bwys i broblemau ymddygiadol ac emosiynol mewn plant, ac yn natblygiad anhwylderau personoliaeth mewn oedolion. Mae deall pwysigrwydd ymlyniad mewn datblygiad cynnar a sut i adnabod pryd mae rhwymau teuluol yn cael eu tanseilio yn sgiliau hanfodol i'r rheiny sy'n gweithio gyda theuluoedd. Hefyd mae ar ymarferwyr angen sgiliau mewn gwaith uniongyrchol a systemig i gefnogi plant sydd ag anawsterau ymlyniad. Felly mae'r cwrs hwn hefyd yn disgrifio'r ymyriadau sydd ar gael os ydych yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a'u rhoddwyr gofal.

Bydd y cwrs yn edrych ar:

- Pam y mae ymlyniad yn bwysig
- Sut mae patrymau ymlyniad yn cael eu ffurfio
- Beth sy'n digwydd pan fo ymlyniad yn mynd o chwith
- Sut y gall arsylwi ein helpu i asesu ymlyniad
- Yr hyn y gallwn ei wneud i gryfhau ac atgyweirio perthnasoedd ymlyniad mewn teuluoedd

14 Mawrth 2011, Caerdydd

NEWYDD

COST:
Aelodau £115
Rhai nad ydynt yn aelodau £135

Cefnogi Ymarferwyr

Dulliau amlsynhwyraidd o ddysgu

Cwrs undydd a hwylusir gan Hirstwood Training

Bydd y cwrs hwn yn cynnig nifer o syniadau, ysbrydoliaeth a gwybodaeth, a fydd yn ddelfrydol i ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau gyda neu heb ystafell synhwyraidd bwrpasol. Byddwch yn dysgu sut i greu sesiynau amlsynhwyraidd gwych ar gyfer adrodd storïau, datblygu sgiliau cyfathrebu, gwaith thema, llythrennedd a rhifedd datblygol a llawer mwy. Bydd y bobl fydd yn cymryd rhan yn edrych ar bwysigrwydd datblygiad synhwyraidd a 'dulliau dysgu' wrth ystyried sut i wella dysgu amlsynhwyraidd. Bydd y cwrs yn edrych ar ddatblygu amrywiaeth o adnoddau amlsynhwyraidd rhad ond effeithiol.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Dealltwriaeth o sut i ddefnyddio ystafelloedd/cyfarpar amlsynhwyraidd i'w potensial llawn
- Y gallu i ddatblygu cysylltiadau amlsynhwyraidd â'r cwricwlwm – llythrennedd, rhifedd, adrodd storïau, gwaith thema
- Y gallu i osod i fyny amgylcheddau amlsynhwyraidd cludadwy
- Dealltwriaeth o ddatblygiad synhwyraidd a dulliau dysgu
- Y gallu i ddysgu sut i ddyblygu syniadau ar gyfer adnoddau synhwyraidd rhad
- Sut i gael sesiynau amlsynhwyraidd sy'n canolbwyntio ac sy'n hwyliog ac yn rhoi boddhad

24 Tachwedd 2010, Caerdydd

COST:
Aelodau £115
Rhai nad ydynt yn aelodau £135

Gweithio creadigol gyda phlant a theuluoedd

Cwrs undydd a hwylusir gan Fatherskills

Mae'r cwrs dwys hwn yn cyflwyno'r bobl sy'n cymryd rhan i ethos defnyddio creadigrwydd yn eu gwaith gyda phlant a theuluoedd. Mae'r cwrs yn cynnig amrywiaeth o offer i ymarferwyr, y gallant eu defnyddio i ddatblygu ffyrdd newydd o feithrin ymddiriedaeth, cyfathrebu, cydweithredu a chydweithio, gan oresgyn rhai o'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â llythrennedd a dysgu a chan fynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud â hunan-barch isel.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Esboniad o egwyddorion ac ymarfer defnyddio creadigrwydd
- Sut mae creadigrwydd yn ysgogi ymddygiad cydweithredol
- Datblygu dealltwriaeth o sut y mae eich profiad eich hun yn dylanwadu ar y ffordd yr ydych yn gweithio
- Cyfle i chwalu amharodrwydd ynghylch creadigrwydd a chwarae
- Edrych ar ymarferion 'porth' syml mewn creadigrwydd
- Trafodaeth ar sut y gellir cynnwys y rhain yn eich gwaith

18 Hydref 2010, Caerdydd

COST:
Aelodau £135
Rhai nad ydynt yn aelodau £160

Mynd i'r afael â pholisi plant a theuluoedd yng Nghymru

Cwrs undydd a hwylusir gan Blant yng Nghymru

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio ar gyfer rheolwyr ac ymarferwyr sy'n dymuno deall yn gliriach sut mae eu sefydliad, a'u meysydd gwaith allweddol, yn ffitio i'r prif feysydd polisi sy'n ymwneud â phlant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru. Bydd y bobl fydd yn cymryd rhan yn dysgu am bolisïau penodol i Gymru sy'n dylanwadu ar gynllunio cenedlaethol a lleol a'r ffrydiau ariannu perthnasol. Bydd yna gyfleoedd i rannu arferion ac i rwydweithio gydag eraill.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Trosolwg ar y cyd-destun a phrosesau gwleidyddol yng Nghymru
- Nodi polisi allweddol ar blant a theuluoedd yng Nghymru
- Egluro'r gwahaniaethau allweddol rhwng polisïau ar gyfer plant a theuluoedd yng Nghymru ac yn Lloegr
- Esboniad o'r strwythurau a blaenoriaethau lleol ar gyfer cynllunio gwasanaethau plant a theuluoedd
- Goblygiadau gweithio mewn gwlad ddwyieithog
- Cyfle i'r bobl fydd yn cymryd rhan ddadansoddi'r prif fygythiadau a chyfleoedd i'w gwasanaethau

15 Chwefror 2011, Caerfyrddin
30 Mawrth 2011, Abergele

COST:
Aelodau £80
Rhai nad ydynt yn aelodau £100

Cyflwyniad i ddeilliannau meddal a chynnydd a wnaed

Cwrs undydd a hwylusir gan Plant yng Nghymru

Mae'r cwrs hwn yn berthnasol i reolwyr ac ymarferwyr sy'n dymuno dangos bod eu hymyriad wedi gwneud gwahaniaeth. Mae cyllidebau'n dynn ac mae angen i bob sefydliad ystyried bod yn gynnil ac yn effeithlon, ond mae'n bwysig parhau i ganolbwyntio ar effeithiolrwydd gwasanaethau. Bydd y cwrs hwn yn edrych ar fesur y deilliannau meddal y mae eich ymyriad wedi'u sicrhau i'r bobl rydych yn gweithio gyda hwy. Bydd y bobl fydd yn cymryd rhan yn edrych ar amrywiaeth o ddulliau y gellir eu defnyddio gyda phob grŵp – o blant a phobl ifanc i oedolion.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Egluro'r derminoleg a ddefnyddir wrth werthuso effaith eich gwasanaethau
- Edrych ar pam y mae angen i chi fesur gwybodaeth ansoddol a sut i wneud hynny
- Ystyried pa ddeilliannau meddal sy'n berthnasol i'ch lleoliad chi
- Edrych ar amrywiaeth o ddulliau o fesur deilliannau meddal
- Sut i asesu'r cynnydd a wnaed gan ddefnyddwyr eich gwasanaeth
- Defnyddio gwybodaeth am ddeilliannau i wella'r ffordd y cyflenwir y gwasanaeth

21 Hydref 2010, Llanbedr Pont Steffan
1 Rhagfyr 2010, Aberhonddu

COST:
Aelodau £80
Rhai nad ydynt yn aelodau £100

Defnyddio fframwaith hawliau dynol i wella hawliau plant

Cwrs undydd a hwylusir gan Gyngor Ffoaduriaid Cymru

Mae'r cwrs uwch hwn wedi'i gynllunio i ddatblygu ymhellach ddealltwriaeth y bobl fydd yn cymryd rhan o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i ddefnyddio yn eu gwaith beunyddiol. Bydd yn canolbwyntio ar offerynnau hawliau dynol eraill y Deyrnas Unedig ac Ewrop a rhai byd-eang, a sut y gellir defnyddio'r rhain yn unigol a gyda'i gilydd, wrth ymarfer ac wrth ddatblygu polisi. Bydd pawb fydd yn cymryd rhan yn y cwrs yn cael set gynhwysfawr o ddeunyddiau hyfforddi.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- Dadansoddiad hanesyddol o'r fframweithiau 'seiliedig ar hawliau'
- Dadansoddiad o sut y gellir defnyddio'r Confensiwn yn effeithiol gydag amrywiaeth fawr o fframweithiau a dulliau eraill
- Dadansoddiad o sefyllfaoedd ymarferol a sut y gellir defnyddio'r dulliau damcaniaethol hyn
- Cyfle i'r bobl fydd yn cymryd rhan i ddatblygu Cynllun Gweithredu ar gyfer defnyddio Fframweithiau Hawliau Dynol

17 Chwefror 2011, Caerdydd

COST:
Aelodau £115
Rhai nad ydynt yn aelodau £135

NEWYDD

Pam cyflenwi gwasanaethau yn Gymraeg i blant a phobl ifanc?

Gweithdy hanner diwrnod a hwylusir gan Plant yng Nghymru

Mae'r gweithdy hwn wedi'i gynllunio i unrhyw un sy'n cyflenwi gwasanaethau i blant, pobl ifanc a theuluoedd, a'i nod yw gwella dealltwriaeth y bobl fydd yn cymryd rhan o anghenion a dymuniadau siaradwyr Cymraeg. Bydd y gweithdy'n rhoi diweddariad i'r bobl fydd yn cymryd rhan ar y ddeddfwriaeth gyfredol a Mesur arfaethedig y Gymraeg 2010, a bydd yn edrych ar ble mae hawliau ieithyddol yn ffitio i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Bydd yn darparu'r offer a'r syniadau i fynd i'r afael â mythau a dadleuon ynghylch darpariaeth Gymraeg a defnydd iaith.

Bydd y gweithdy'n cynnwys:

- Edrych ar ddewisiadau ieithyddol plant, pobl ifanc a theuluoedd a datblygu gwasanaethau i ddiwallu eu hanghenion
- Sut i weithio gyda siaradwyr Cymraeg mewn ffordd briodol
- Sut i ddarparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg gydag ond ychydig o staff ac adnoddau Cymraeg
- Nodi deddfwriaeth gyfredol ac arfaethedig ar y Gymraeg

25 Ionawr 2011, Pontypridd

COST:
Aelodau £35
Rhai nad ydynt yn aelodau £50

NEWYDD

Calendr Hyfforddiant

Hydref 2010 - Ionawr 2011

Dyddiad	Cwrs	Lleoliad
14/10/2010	Gwelwch Fi, Clywch Fi – Hyrwyddo Hawliau Plant Anabl	Caerdydd
18/10/2010	Gweithio Creadigol gyda Phlant a Theuluoedd	Caerdydd
21/10/2010	Cyflwyniad i Ddeilliannau Meddal a Chynnydd a Wnaed	Llanbedr Pont Steffan
22/10/2010	Ymgysylltu â Thadau	Wrecsam
02/11/2010	Lleihau Nifer y Damweiniau yn y Cartref yn y Blynyddoedd Cynnar	ger Aberhonddu
10/11/2010	Cyflwyniad i Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed	Caerdydd
16/11/2010	Lleihau Nifer y Damweiniau yn y Cartref yn y Blynyddoedd Cynnar	ger Caernarfon
17/11/2010	Hyfforddi'r Hyfforddwr: Hyfforddiant ar Ddiogelwch yn y Cartref i'w Gyflenwi yn y Gymuned	ger Caernarfon
17/11/2010	Diogelu Plant – Cwrs Sylfaenol ar Esgeuluso Plant	Caerdydd
24/11/2010	Dulliau Amlsynhwyraidd o Ddysgu	Caerdydd
30/11/2010	Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches	Caerdydd
01/12/2010	Cyflwyniad i Ddeilliannau meddal a Chynnydd a Wnaed	Aberhonddu
03/12/2010	Diogelu Plant – Gweithio gyda Rhieni Peryglus ac Osgoilyd	Merthyr
10/12/2010	Chwarae Therapiwtig i Blant mewn Angen	Castell-nedd
17/01/2011	Cyflwyniad i Hawliau a Chyfranogiad Plant	Llandudno
18/01/2011	Deall Blynyddoedd yr Arddegau	Castell-nedd
24/01/2011	Cam-drin Domestig ac Amddiffyn Plant – Ymagwedd Amlasiantaethol	Abertawe
25/01/2011	Pam Cyflenwi Gwasanaethau yn Gymraeg i Blant a Phobl Ifanc?	Pontypridd

Calendr Hyfforddiant

Chwefror i Mawrth 2011

02/02/2011	Esgeuluso Plant – Cwrs Uwch i Ymarferwyr Profiadol	Merthyr
09/02/2011	Gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc ar eu Pen eu Hunain yn Ceisio Lloches	Wrecsam
09 & 10/02/2011	Beth sy'n Gweithio? Sgiliau Therapiwtig mewn Gwaith Teuluol	Caerffili
15/02/2011	Mynd i'r Afael â Pholisi Plant a Theuluoedd yng Nghymru	Caerfyrddin
17 & 18/02/2011	Defnyddio Fframwaith Hawliau Dynol i Wella Hawliau Plant	Caerdydd
17/02/2011	Cyflwyniad i Weithio gyda Thadau	Casnewydd
01/03/2011	Diogelu Plant – Cwrs Sylfaenol ar Esgeuluso Plant	Y Rhyl
02 & 03/03/2011	Hunan-Niwed	Merthyr
08/03/2011	Gweithio'n Gadarnhaol gyda Phlant Awtistig yn y Blynyddoedd Cynnar	Blaenau Gwent
14/03/2011	Ymlyniad a'i Rôl ym Mywydau Plant	Cardiff
15/03/2011	Er Gwaethaf y Disgwyl – Meithrin Gwydnwch mewn Pobl Ifanc	Castell-nedd
22/03/2011	Chwarae Therapiwtig i Blant mewn Angen	Y Rhyl
23/03/2011	Ymagweddau Cadarnhaol at Ymddygiadau Cadarnhaol	Y Rhyl
30/03/2011	Mynd i'r Afael â Pholisi Plant a Theuluoedd yng Nghymru	Abergele
31/03/2011	Cam-drin Domestig ac Amddiffyn Plant – Ymagwedd Amlasiantaethol	Abergele

Plant yng Nghymru
25 Plas Winsor
Caerdydd CF10 3BZ

Ffôn: 029 2034 2434
bookings@childreninwales.org.uk
www.plantyngnghymru.org.uk